

Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

☎ 01490 412500

✉ ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk

Ysgol Bro Dyfrdwy



Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

Chwefror 2ail, 2018


Annwyl rieni,

Cafwyd holl waith caled y disgyblion, y staff, y Llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned ehangach ei gydnabod yr wythnos hon wrth i'r tabl Categori Ysgolion cael ei gyhoeddi. Dyfarnwyd y statws gwyrdd i ysgol Bro Dyfrdwy ac mae'r tabl isod yn egluro arwyddocâd hynny. Rydym yn falch iawn o fod wedi ennill y raddfa uchaf hon ac rydym hefyd yn awyddus i barhau i gynnal yr un safonau a disgwyliadau uchel.

Yn gywir

Eirian Owain

CATEGAREIDDIO YSGOLION - Nôd y system genedlaethol ar gyfer categorïddio ysgolion yw darparu strwythur clir i adolygu pa mor dda y mae ysgol yn perfformio er lles ei holl ddysgwyr gan roi ystyriaeth i farn i ba mor dda ac effeithiol caiff yr ysgol ei arwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r lefel o her a chefnogaeth sy angen arni i berfformio'n well. -



Rydyn ni'n yn falch o gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu bod Ysgol Bro Dyfrdwy yn ysgol gwyrdd.

Mae'r canllawiau sy'n esbonio'r system Categori Genedlaethol ar gyfer ysgolion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.



Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

☎ 01490 412500



ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk



'Ysgol hynod o effeithiol sy'n cael ei rheoli a'i arwain yn dda ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau i wella. Mae gan yr ysgolion hyn hanes o godi safonau ac mae ganddynt y gallu i gefnogi ysgolion eraill i wneud yn well'.

DILLAD YMARFER CORFF - Gair i'ch atgoffa ei bod hi'n bolisi ysgol fod plant i wisgo crys t plaen gwyn a phâr o siorts du ar gyfer eu gwersi ymarfer corff. Yn anffodus mae llawer o blant yn anghofio dod a'u dillad ymarfer corff yn wythnosol. Felly amgaeaf amseroedd y gwersi i'ch sylw unwaith eto sef

Bore Mawrth - Blwyddyn 5 a 6

Pnawn Mercher - Derbyn a Blwyddyn 1

Pnawn Iau - Blwyddyn 3 a 4

Pnawn Iau - Blwyddyn 2 sy'n nofio y tymor hwn.

Da o beth fuasai i'r plant adael eu dillad ymarfer corff mewn bag ar eu pegiau yn wythnosol.

NI CHANIATEIR i unrhyw blentyn gymeryd rhan mewn gwers ymarfer corff oni bai ei fod yn gwisgo gwisg addas.

ESGIDIAU YSGOL - Yn yr un modd mae'n bolisi ysgol fod plant yn gwisgo pâr o esgidiau addas a chadarn du ar eu traed yn ddyddiol. **NI CHANIATEIR** iddynt wisgo trainers lliwgar fel rhan o wisg ysgol.

CLWB YR URDD - Dydd Mercher nesaf, Chwefror 7fed

NEWID DYDDIAD - Cynhelir Gwasanaeth Teulu Blwyddyn 5 a 6 ddydd Mercher, Mawrth 7fed yn hytrach na dydd Mercher, Chwefror 7fed fel y nodwyd mewn rhifyn diweddar o Clecs. Ymddiheuriadau am hyn.

RASUS TRAWSGWLAD - Llongyfarchiadau mawr i griw o ddisgyblion fu'n cynrychioli'r ysgol mewn cystadlaeth trawsgwlad a drefnwyd gan ysgol Dinas Bran ar gyfer ysgolion cynradd y dalgylch yr wythnos diwaethaf. Braf yw cael cyhoeddi mae'r tîm o Ysgol Bro



Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

☎ 01490 412500



ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk



Dyfrdry oedd yn fuddugol ar y diwrnod. Diolch i Mr Steffan Newport a fu'n hyfforddi'r plant yn ystod yr awr ginio.

EISTEDDFOD CYLCH YR URDD - Ysgol Dinas Bran Dydd Sadwrn, Mawrth 3ydd. Mae'r dyddiad cau i'r ysgol gofrestru y plant sy'n bwriadu cystadlu yn yr Eisteddfod wedi pasio.

DALIER SYLW - Rhaid i bob plentyn fod yn aelod o'r Urdd er mwyn cystadlu yn y Eisteddfod.

PRIODAS FFUG - Dydd Mawrth, Mawrth 6ed bydd Plant y Cyfnod Sylfaen yn cynnal priodas ffug yn Eglwys Sant Ioan, Cynwyd am 10 o'r gloch. Croeso cynnes i chi fel rhieni i ddod draw i weld y seremoni dan ofal y Parch Sandra Roberts.

NOSON AGORED - Cewch y cyfle i weld a thrafod gwaith eich plentyn efo'r athrawon dosbarth fel a ganlyn -

Dydd Llun Mawrth 12fed a dydd Mawrth, Mawrth 13eg - Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 2, Blwyddyn 3, Blwyddyn 4.

Dydd Mercher, Mawrth 14eg - Blwyddyn 5 a 6

Cofiwch - mae'r ysgol yn cau **dydd Gwener nesaf sef Chwefror 9fed** ac yn ail agor ar **ddydd Llun, Chwefror 19eg**.

